# Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru

## Adroddiad gan Archwilydd Cyffredinol Cymru

## Asesiad Corfforaethol Rhagarweiniol – Awst 2010



**Cyf: 416A2010**
Llun trwy garedigrwydd Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru.
Arweiniwyd Tîm Asesu Corfforaethol yr Archwilydd Cyffredinol ar gyfer Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru gan Lisa Williams (Swyddog Arweiniol Asesu Gwelliant) o dan gyfarwyddyd Alan Morris (Partner).

# Mae arweinyddiaeth sefydlog a gwelliannau i lywodraethu corfforaethol yn debygol o gefnogi gwelliant yn y dyfodol

**Swyddfa Archwilio Cymru**
**24 Heol y Gadeirlan**
**Caerdydd**
**CF11 9LJ**
**Ffôn: 029 2032 0500**
**Ffacs: 029 2032 0600**
**Ffôn Testun: 029 2032 0660**
**E-bost: info@wao.gov.uk**
**Gwefan: www.wao.gov.uk**

Paratowyd y ddogfen hon at ddefnydd mewnol Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru fel rhan o'r gwaith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol, y Cod Ymarfer Archwilio a'r Datganiad o Gyfrifoldebau a gyhoeddwyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru.

Nid oes unrhyw gyfrifoldeb ar Swyddfa Archwilio Cymru (yr Archwilydd Cyffredinol a'i staff) na'r archwilydd penodedig, lle y bo'n gymwys, mewn perthynas ag unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog na chyflogai arall yn unigol, nac i unrhyw drydydd parti.

Os ceir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, yn cynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru (a, lle y bo'n gymwys, ei harchwilydd penodedig) yn drydydd parti perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru yn infoofficer@wao.gov.uk



# Cynnwys


Crynodeb 4

Rhan 1: Sut mae'r Awdurdod wedi mynd ati i sicrhau gwelliant dros amser 6

Mae trefniadau'r Awdurdod ar gyfer cefnogi gwelliant wedi atgyfnerthu'n raddol dros y blynyddoedd diwethaf ac maent yn debygol o gefnogi gwelliant yn y dyfodol 6

Yn y gorffennol mae trefniadau'r Awdurdod i gefnogi gwelliant wedi cael eu rhwystro gan wybodaeth reoli annigonol 6

Mae gan yr Awdurdod ddull pwyllog a chynhwysol o gynllunio ei weithgareddau er mwyn lleihau nifer yr achosion o farwolaethau oherwydd tân a gafwyd yn ystod y blynyddoedd diwethaf ac mae wedi gwneud newidiadau cadarnhaol i gefnogi gwelliant 7

Mae'r cynnydd yn galonogol ac mae tystiolaeth bod yr Awdurdod yn dod yn fwy rhagweithiol ac arloesol yn ei ddull o gefnogi gwelliant 8

Rhan 2: Dadansoddiad o drefniadau'r Awdurdod i'w helpu i wella 9

Ar y cyfan mae trefniadau'r Awdurdod yn gadarn ac yn dangos cryfderau penodol o ran gweithio mewn partneriaeth ond maent yn wannach mewn prosesau busnes 9

Mae gan yr Awdurdod drefniadau gweithio mewn partneriaeth datblygedig, yn arbennig gyda'r heddlu, a atgyfnerthir ymhellach pan gaiff prosesau gwerthuso eu datblygu 9

Mae gan yr Awdurdod drefniadau da a ddylai gefnogi gwelliant mewn perthynas ag arwain a llywodraethu, polisi a strategaeth, adnoddau a rheoli pobl 10

Nodwyd gwendidau ym maes rheoli perfformiad a chymerwyd camau i wella cadernid y systemau gwybodaeth reoli, ond mae angen datblygu prosesau busnes ymhellach 13

# Crynodeb

1 O dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) (2009) (y Mesur) mae'n ofynnol i'r Archwilydd Cyffredinol gynnal Asesiad blynyddol o Welliant ar gyfer pob awdurdod gwella yng Nghymru, hynny yw cynghorau lleol, parciau cenedlaethol ac awdurdodau tân ac achub.

2 Er mwyn bodloni'r gofyniad hwn bydd Swyddfa Archwilio Cymru yn cyflawni:

- Asesiad Corfforaethol – sy'n asesu trefniadau awdurdod i sicrhau gwelliant parhaus; ac
- Asesiad o Berfformiad – sy'n asesu p'un a yw awdurdod wedi cyflawni'r gwelliannau a gynlluniwyd.

3 Y nod yw cynnal asesiad sefydliad cyfan ym mhob cyngor mewn dull safonol. Gyda'i gilydd, bydd y ddau asesiad hyn yn ffurfio sail adroddiad blynyddol i ddinasyddion, sef yr Adroddiad Gwella Blynyddol.

4 Mae'r Archwilydd Cyffredinol wedi cyfuno ei gwaith hi, gwaith yr Archwilydd Penodedig, a gwaith rheoleiddwyr perthnasol eraill, i lywio'r asesiad corfforaethol. Gan mai hon yw blwyddyn gyntaf y dull gweithredu newydd, mae'r asesiad yn un rhagarweiniol a dylid ystyried yr adroddiad hwn yn adroddiad ar gynnydd. Bydd yr Adroddiad Gwella Blynyddol hefyd yn ddiweddariad ar gyfer yr Asesiad Corfforaethol.

5 Ym mis Mawrth 2010, nododd yr Archwilydd Cyffredinol faint yr her ariannol sy'n wynebu gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru mewn adroddiad i'r Cynulliad Cenedlaethol 'Darlun o Wasanaethau Cyhoeddus.' Nodwyd effaith bosibl gostyngiadau mewn gwariant ar lywodraeth leol hefyd gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC), Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth a Chymdeithas Prif Weithredwyr yr Awdurdodau Lleol. Mewn tystiolaeth i Bwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus y Cynulliad Cenedlaethol ym mis Mehefin 2010, dywedodd CLILC: 'Nad oedd modd dianc rhag y ffaith y byddai angen i bob rhan o'r sector cyhoeddus archwilio ei gwariant cyhoeddus a'r gwasanaethau a ddarperir - ni ellir datrys y diffyg drwy effeithlonrwydd yn unig.' Er mwyn ymateb i'r her hon, mae'n rhaid i awdurdodau tân ac achub gynnal adolygiad sylfaenol o'r gwasanaethau a ddarperir ganddynt a sut y cânt eu darparu, gan ystyried dewisiadau ar gyfer cynyddu lefelau caffael yn hytrach na darparu gwasanaethau a chydweithio. Lluniwyd yr Asesiad Corfforaethol yn y cyd-destun hwn.

6 Mae'r adroddiad yn nodi canfyddiadau'r Asesiad Corfforaethol yn unig, ac mae wedi'i lunio i ateb y cwestiwn:

'A yw trefniadau Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (yr Awdurdod) yn debygol o sicrhau gwelliant parhaus?'

7 Gan mai ein Hasesiad Corfforaethol Rhagarweiniol yw hwn mae sawl maes lle mai dim ond gwaith cyfyngedig sydd wedi bod yn bosibl. Byddwn yn parhau i adeiladu ar hyn a monitro cynnydd yn y misoedd i ddod i roi diweddariad yn ein Hadroddiad Gwella Blynyddol, i'w gyhoeddi ym mis Tachwedd.



8 Y casgliad sy'n deillio o'n Hasesiad Corfforaethol cyntaf yw bod arweinyddiaeth sefydlog a gwelliannau i llywodraethu corfforaethol yn debygol o gefnogi gwelliant yn y dyfodol.

9 Seiliwyd ein casgliad ar ein hasesiad o gynnydd yr Awdurdod dros amser a dadansoddiad o gryfderau a gwendidau ei drefniadau i gefnogi gwelliant. Ceir esboniad manwl o'r casgliadau hyn yn Rhan 1 a Rhan 2 o'r adroddiad, yn y drefn honno. Nodwyd y canlynol:

- bod trefniadau'r Awdurod ar gyfer cefnogi gwelliant wedi atgyfnerthu'n raddol dros y blynyddoedd diwethaf a'u bod yn debygol o gefnogi gwelliant yn y dyfodol; a
- bod trefniadau'r Awdurdod yn gadarn ar y cyfan ac yn dangos cryfderau penodol o ran gweithio mewn partneriaeth ond eu bod yn wannach mewn prosesau busnes.

## Arolygiad arbennig

10 Yn seiliedig ar yr Asesiad Corfforaethol, nid yw'r Archwilydd Cyffredinol yn bwriadu cynnal unrhyw Arolygiad Arbennig o'r Awdurdod o dan adran 21 o'r Mesur.

## Argymhellion

11 Nid yw'r Archwilydd Cyffredinol wedi gwneud unrhyw argymhellion ffurfiol ar gyfer gwella i'r Awdurdod o dan adran 19 o'r Mesur nac argymell y dylai Gweinidogion Cymru roi cymorth i'r Awdurdod drwy arfer eu pŵer o dan adran 28 o'r Mesur na rhoi cyfarwyddyd o dan adran 29 o'r Mesur.

## Meysydd ar gyfer gwella

12 Mae'r asesiad wedi nodi'r meysydd canlynol lle yr argymhellwn fod yr Awdurdod yn gweithredu.

| Arddangosyn 1: Meysydd i'w Gwella |
|---|
| Dylai'r Awdurdod ystyried y canlynol:<br>C1 Mynd i'r afael â'r ffaith bod y Panel Gweithredol a'r Pwyllgor Archwilio o bosibl yn dyblygu rolau wrth fonitro gwybodaeth am berfformiad, er mwyn osgoi unrhyw ddryswch neu ddyblygu diangen. |
| C2 Sicrhau bod yr ystod gyfredol o feddalwedd cyflwyno adroddiadau yn hwyluso proses gwneud penderfyniadau gadarn yn y tymor canolig i'r hirdymor. |
| C3 Adolygu pa brosesau busnes a fydd yn cefnogi orau y gwaith o ddarparu prosiectau arfaethedig yn llwyddiannus. |
| C4 Ffurfio cynllun tymor canolig i sicrhau cytundeb ar gyfeiriad polisi eang a'r adnoddau sy'n ofynnol i'w gyflawni. |

# Rhan 1: Sut mae'r Awdurdod wedi mynd ati i sicrhau gwelliant dros amser

## Mae trefniadau'r Awdurod ar gyfer cefnogi gwelliant wedi atgyfnerthu'n raddol dros y blynyddoedd diwethaf ac maent yn debygol o gefnogi gwelliant yn y dyfodol

### Yn y gorffennol mae trefniadau'r Awdurdod i gefnogi gwelliant wedi cael eu rhwystro gan wybodaeth reoli annigonol

13 Gwnaeth Llywodraeth y Cynulliad, ar ôl i'r cyfrifoldeb am y gwasanaeth tân gael ei ddatganoli yn 2004, nodi ei weledigaeth yn y ddogfen *Fframwaith Cenedlaethol Tân ac Achub Cymru*, gan nodi y dylai'r Awdurdodau:

- Geisio gwneud cymunedau'n fwy diogel a, thrwy wneud hynny, weithio yng nghanol y cymunedau gyda phroses dryloyw o wneud penderfyniadau sy'n cynnwys y cymunedau.
- Gweithio'n ddi-dor gyda'i gilydd, gwasanaethau brys eraill, partneriaid eraill a'r gymuned, gan ddarparu gwasanaethau cydlynol sy'n gwneud y gorau o adnoddau'r Awdurdod ac adnoddau sefydliadau partner.
- Cydnabod yr effaith y gallant ei chael ar yr amgylchedd (naturiol ac adeiledig) a phatrwm cymdeithasol cymdeithas - gan gyfrannu at gyflawni amcanion Llywodraeth y Cynulliad mewn perthynas â chynaliadwyedd drwy weithgareddau gweithredol, camau ataliol a thrwy archwilio effaith ar eu sefydliadau eu hunain.
- Cydnabod amrywiaeth yn eu cymunedau a sicrhau bod eu staff yn adlewyrchu'r amrywiaeth hon yn y gymuned a'u bod yn gallu cyrraedd eu potensial llawn drwy sicrhau cyfle cyfartal i bawb wrth ddarparu gwasanaethau i'r cyhoedd.

14 Yn 2009, sefydlwyd uwch dîm rheoli parhaol gyda rolau a chyfrifoldebau eglur. Mae wedi ymateb i'r heriau a nodir yn y Fframwaith Cenedlaethol a, thrwy ei Gynlluniau Lleihau Risg a'i Gynlluniau Gwella, mae wedi sefydlu gwasanaeth sy'n ceisio cydbwyso ei gyfrifoldebau o ran ymateb i ddigwyddiadau brys â rhaglen lawn o weithgareddau ataliol. Newidiadau sylweddol i'w brosesau gwneud penderfyniadau, drwy newid diwylliannol, gan bwysleisio rôl diogelwch cymunedol yr Awdurdod a'i staff gan gynnwys strwythur rheoli sirol sydd bellach â rolau a chyfrifoldebau eglur o ran cyflawni gweithgareddau diogelwch cymunedol.

15 Cafwyd gwelliannau i system rheoli perfformiad a threfniadau cyflwyno adroddiadau'r Awdurdod yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Mae system wybodaeth BOSS wedi gwella'r gallu i gael gwybodaeth ac mae ffynonellau newydd wedi cael eu cyflwyno, fel y rhai a geir yn y system reoli newydd, y System Cofnodi Digwyddiadau a'r System Rheoli Cofnodion.



16 Ar 29 Medi 2009, cyhoeddodd yr Archwilydd Penodedig adroddiad diamod ar Ddatganiadau Ariannol 2008-09, yn cadarnhau iddynt gael eu paratoi yn unol â'r gofynion statudol a'u bod yn rhoi darlun teg o sefyllfa ariannol a thrafodion ariannol yr Awdurdod.

17 Ym mis Hydref 2009, cyhoeddodd yr Archwilydd Penodedig a'r Rheolwr Cydberthynas Lythyr Blynyddol ar ddatganiadau ariannol, trefniadau corfforaethol a pherfformiad yr Awdurdod. Cyflwynwyd y Llythyr Blynyddol hwn i'r Awdurdod ar 19 Hydref 2009. Nododd y Llythyr mai'r materion allweddol i'r Awdurdod ar yr adeg hon oedd iddo sicrhau ei fod yn parhau i wneud gwelliannau o ran lleihau lefelau'r risg weithredol a nodwyd gan y Tîm Asesu Cymheiriaid a'r Asesiad Risg ar y Cyd diwethaf.

## Mae gan yr Awdurdod ddull pwyllog a chynhwysol o gynllunio ei weithgareddau er mwyn lleihau nifer yr achosion o farwolaethau oherwydd tân a gafwyd yn ystod y blynyddoedd diwethaf ac mae wedi gwneud newidiadau cadarnhaol i gefnogi gwelliant

18 Ym mis Hydref 2006, sefydlodd y Prif Swyddog Tân Grŵp Gorchwyl i adolygu'r rhesymau dros y cynnydd cyflym ac annisgwyl yn nifer y marwolaethau oherwydd tân a welodd yn ystod 2006-07. Cytunodd y grŵp, a oedd yn cynnwys cynrychiolwyr o'r heddlu a llywodraeth leol, ar y camau yr oedd angen eu cymryd i leihau nifer y marwolaethau oherwydd tân a bu hyn yn sail i'w Gynllun Lleihau Risg yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Defnyddiodd yr Awdurdod, a'r Grŵp Gorchwyl, ddull cryf yn seiliedig ar ymchwil i ddatblygu camau gweithredu allweddol, y mae staff yn y Gwasanaeth yn eu deall.

19 Gwnaeth adolygiad a gyflwynwyd i'r Awdurdod ym mis Hydref 2009 gan y Grŵp Gorchwyl, a ailddechreuwyd yn ddiweddar, 12 o argymhellion i barhau i wella diogelwch tân yng Ngogledd Cymru. Un o'r datblygiadau allweddol oedd sefydlu trefniadau rhannu gwybodaeth gyda chwe chyngor cyfansawdd yr Awdurdod a'r awdurdod iechyd, i alluogi i brofion diogelwch tân yn y cartref gael eu targedu'n well i bobl sydd fwyaf agored i niwed yn y gymuned. Mae nifer y marwolaethau oherwydd tân wedi gostwng o bedwar yn ystod y flwyddyn adrodd ddiwethaf (2008-09) o uchafbwynt o 10 yn 2006-07 a 2007-08.

20 Yn ei Gynllun Lleihau Risg cyfredol (2010-11) mae'r Awdurdod yn pennu cyfeiriad clir ar gyfer gwella yn ystod y flwyddyn, sy'n cyfateb i weledigaeth Llywodraeth y Cynulliad ar gyfer gwasanaethau tân ac achub. Mae'r Awdurdod yn debygol o wynebu toriadau ariannol dros yr ychydig flynyddoedd nesaf a dylid ystyried cynllunio tymor canolig mwy ffurfiol yn y dyfodol sy'n cwmpasu amcanion ariannol a strategol yr Awdurdod. Bydd hyn yn rhoi amserlenni mwy realistig i'r Awdurdod gyflawni amcanion allweddol a gwelliannau wrth ddarparu gwasanaethau.

21 Nod yr Awdurdod yw sicrhau consensws wrth ddatblygu cynlluniau a chafwyd ymgysylltu cryf ag aelodau wrth ddatblygu'r cynigion ar gyfer Cynllun Lleihau Risg 2011-12. Ystyrir dadansoddiadau o ystadegau a pherfformiad yn y gorffennol, yn ogystal â barn trigolion, cynghorau cymuned, a grwpiau diddordeb lleol fel rhan o broses ymgynghori'r Cynllun Lleihau Risg.

## Mae'r cynnydd yn galonogol ac mae tystiolaeth bod yr Awdurdod yn dod yn fwy rhagweithiol ac arloesol yn ei ddull o gefnogi gwelliant

22 Drwy ei ddull gwell sy'n seiliedig ar wybodaeth ymchwil ac mae'r Awdurdod wedi nodi'r gwelliant y mae am ei wneud yn yr hirdymor. Mae'n realistig am yr hyn y gall ei gyflawni mewn un flwyddyn yn sgîl y pwysau gweithredu ac ariannol y mae'n ei wynebu.

23 Mae'r Awdurdod wedi dangos ei fod yn gallu gwneud (a chefnogi) y penderfyniadau anodd y mae angen eu gwneud i gyflawni ei agenda wella. Ymhlith yr enghreifftiau mae:

- cytuno ar brotocol rhannu data gyda'r chwe chyngor, sydd eisoes yn effeithio ar nifer y ceisiadau am brofion diogelwch tân yn y cartref a lleoliad y ceisiadau hynny (yn arbennig gan y cartrefi hynny sydd o bosibl mewn mwy o berygl a/neu yn agored i beryglon tân);

- cyflwyno staff anweithredol i gynnal gwaith ataliol a throsglwyddo adnoddau o faes ymyrraeth i faes atal i ariannu'r swyddi hyn; a

- chamau cyflym a gymerwyd gan yr Awdurod i fynd i'r afael â'r argymhellion yn dilyn arolygiad yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch ym mis Rhagfyr 2009.

24 Mae'r Pwyllgor Archwilio a sefydlwyd yn ddiweddar yn rhoi cyfle i ganolbwyntio'n fwy ar berfformiad ac ar fonitro'r broses o gyflawni'r gwelliannau a gynllunnir.



# Rhan 2: Dadansoddiad o drefniadau'r Awdurdod i'w helpu i wella

## Ar y cyfan mae trefniadau'r Awdurdod yn gadarn ac yn dangos cryfderau penodol o ran gweithio mewn partneriaeth ond maent yn wannach mewn prosesau busnes

### Mae gan yr Awdurdod drefniadau gweithio mewn partneriaeth datblygedig, yn arbennig gyda'r heddlu, a atgyfnerthir ymhellach pan gaiff prosesau gwerthuso eu datblygu

25 Mae gan yr Awdurdod ddiwylliant cryf o weithio mewn partneriaeth a hanes o ddarparu gwasanaethau mewn modd cydweithredol. Mae gwaith Grŵp Gorchwyl y Prif Swyddog wedi meithrin dealltwriaeth well ymhlith partneriaid o'u rolau perthnasol ac wedi caniatáu'r cydberthnasau sy'n angenrheidiol i sicrhau cydweithio yn y dyfodol.

26 Mae'r cydweithio â Heddlu Gogledd Cymru yn arbennig o gryf ac mae tystiolaeth bod mwy o weithio mewn partneriaeth â chynghorau. Ymhlith y prosiectau diweddar gyda Heddlu Gogledd Cymru roedd: sefydlu'r Ganolfan Cyfathrebu ar y Cyd, a sicrhaodd fanteision uniongyrchol o ran neilltuo adnoddau'r gwasanaeth; a chreu swyddogaeth ystadau ar y cyd yn gyfrifol am holl eiddo'r Heddlu a'r Gwasanaeth Tân yng Ngogledd Cymru. Enghraifft arall yw'r cynnydd yn nifer yr atgyfeiriadau Profion Diogelwch Tân yn y Cartref (HFSC) gan bartneriaid, sy'n gwella'r targed o ymweld â'r cartrefi sy'n wynebu'r perygl mwyaf ac yn risg uchel.

27 Mae ar hyn o bryd lai o ymgysylltu â'r sector iechyd ond dylai'r gwaith diweddar a wnaed gyda chynghorau sy'n ymwneud â rhannu data ac ad-drefnu'r sector iechyd yn y Gogledd arwain at welliannau yn y maes hwn.

28 Mae'r Awdurdod wedi cydnabod y bydd angen cynnal adolygiad beirniadol o'r canlyniadau a gafwyd o'i waith partneriaeth yn y dyfodol wrth i gyfyngiadau ariannol llymach effeithio ar y gyllideb sydd ar gael ar gyfer y gweithgaredd hwn.

29 Newidiodd rôl rheolwyr diogelwch cymunedol ym mis Ebrill 2010 i'w galluogi i ganolbwyntio'n llwyr ar y rôl diogelwch cymunedol a sicrhau ymgysylltu gwell â phartneriaethau allweddol ym mhob ardal sirol. Un o nodau eraill y fenter hon yw gwella gallu'r Awdurdod i ymgysylltu'n llawn â sbectrwm eang o bartneriaethau statudol sy'n uniongyrchol berthnasol i'w waith diogelwch a lleihau risg.

## Mae gan yr Awdurdod drefniadau da a ddylai gefnogi gwelliant mewn perthynas ag arwain a llywodraethu, polisi a strategaeth, adnoddau a rheoli pobl

### Mae arwain a llywodraethu yn gwella wrth i drefniadau craffu gael eu hymgorffori'n fwy

30 Mae'r Awdurdod wedi mabwysiadu dull Panel Gweithredol sef bod 14 o aelodau yn ffurfio grŵp gwneud penderfyniadau (mewn cydweithrediad ag uwch swyddogion) a bod yr 14 o aelodau eraill yn ffurfio'r Pwyllgor Archwilio a sefydlwyd yn ddiweddar. Mae'r Awdurdod yn ymwybodol o'r potensial i hyn wanychu hunaniaeth yr Awdurdod yn gyffredinol drwy ymrannu aelodau'n ddau grŵp ar wahân ac mae'n gweithio i sicrhau bod y risg hon yn cael ei lleihau.

31 Mae nifer o weithgareddau a wnaed gan yr Awdurdod wedi cefnogi gwelliannau o ran llywodraethu ac ymgysylltu ag aelodau, gan gynnwys:

- cyflawni statws Siarter efydd ar gyfer cefnogi a datblygu aelodau o dan fenter CLILC;
- cyflawni'r Safon Iechyd Corfforaethol lefel Aur a redir gan Lywodraeth y Cynulliad;
- cefnogaeth gref i aelodau, darperir gweithgareddau hyfforddi a datblygu gan y swyddog cefnogi aelodau;
- tryloywder da wrth wneud penderfyniadau gyda'r holl agendâu a chofnodion ar wefan yr Awdurdod;
- cynnwys aelodau yn gynnar yn y broses o bennu'r gyllideb;
- ymgysylltu ag aelodau wrth wneud penderfyniadau anodd;
- cynnwys staff yn y broses o lunio gwasanaethau drwy'r cylchgrawn staff chwarterol a grwpiau swyddogion; a
- chynnal cyfarfodydd ledled ardal y gwasanaeth.

32 Yn ddiweddar, sefydlodd yr Awdurdod Bwyllgor Archwilio i wella ei drefniadau craffu a throsolwg. Mae gan y Pwyllgor gylch gorchwyl clir a sefydlwyd rhaglen hyfforddi i gynorthwyo aelodau i ddatblygu yn eu rôl newydd.

33 Mae'r Pwyllgor Archwilio yn newydd o hyd a dim ond tri chyfarfod a gynhaliwyd hyd yn hyn, ac mae ei rôl allweddol o fonitro perfformiad eto i'w sefydlu gan fod yr adroddiad blynyddol diweddaraf ar berfformiad wedi'i gyflwyno i'r Panel Gweithredol ym mis Gorffennaf 2010. Mae gan y ddau bwyllgor rôl sy'n ymwneud â dangosyddion perfformiad yn eu cylch gorchwyl. Rôl y Pwyllgor Archwilio yw 'adolygu'r broses o gyflawni dangosyddion perfformiad y cytunwyd arnynt', a rôl y Panel Gweithredol yw 'monitro'r perfformiad yn erbyn dangosyddion perfformiad a bennir yn genedlaethol a dangosyddion perfformiad lleol'. Mae angen ystyried y dyblygu posibl yn y rôl hon er mwyn osgoi unrhyw ddryswch diangen.

34 Er bod yr Awdurdod yn mabwysiadu dull mwy hirdymor o ran ei drefniadau cynllunio, gan gydnabod bod angen treulio mwy nag un flwyddyn ar rai cynigion i'w gweithredu, rhaid iddo hefyd sicrhau y gall brofi cynnydd a dangos canlyniadau clir.



**Mae polisi a strategaeth yr Awdurdod yn gadarn ac mae prosesau gwneud penderfyniadau wedi atgyfnerthu**

35 Mae'r Awdurdod yn gwybod yr hyn y mae am ei gyflawni ac mae wedi nodi hyn yn ei Gynllun Gwella cyfredol (a gyfunir â Chynllun Lleihau Risg 2010-11). Mae'r ddogfen hon yn disgrifio dyletswyddau, nodau a gwerthoedd craidd, ac yn amlinellu'r dulliau eang y mae'n bwriadu eu mabwysiadu. Cytunwyd arni yn dilyn adolygiad o berfformiad yn y gorffennol, blaenoriaethau lleol a chyfyngiadau cyllidebol. Mae'n amlinellu blaenoriaethau ar gyfer 2010-11 fel:

- adolygu trefniadau o ran sicrhau digon o swyddogion;
- penderfynu ar safon presenoldeb Llwyfan Ysgol Awyrol; ac
- adolygu Safonau Trefniadau Offer Tân.

36 Mae camau penodol yn y Cynllun Lleihau Risg ar gyfer y flwyddyn yn hysbys ac wedi'u deall ym mhob rhan o'r sefydliad. Ceir manylion yng nghynlluniau busnes y sir ac mae staff rheng flaen yn canolbwyntio ar gyflawni pedwar amcan allweddol: argaeledd offer; lleihau absenoldebau ymhlith staff; cyflawni targedau HFSC; a deallusrwydd gweithredol.

37 Mae'r Cynllun Lleihau Risg arfaethedig ar gyfer 2011-12, sy'n destun ymgynghoriad ar hyn o bryd, wedi'i baratoi yn dilyn adolygiad o ystod eang o wybodaeth gan aelodau gweithgor y Cynllun Lleihau Risg. Mae'r grŵp hwn wedi ystyried pwysau ariannol a gweithredol presennol yn ogystal â pha mor dda y mae'n gweithredu camau blaenorol y Cynllun Lleihau Risg wrth benderfynu ar ei 15 o themâu i'w hystyried ymhellach.

38 Mae gan yr Awdurdod ystod o brosesau i gyfathrebu ac ymgynghori ar gynigion ar gyfer newid gyda'i aelodau, ei staff, ei gyrff cynrychioliadol, ei bartneriaid a'r cyhoedd. Mae'n defnyddio ffyrdd gwahanol o gyfathrebu i annog ymgynghori gwell â'r cyhoedd a'u cynnwys yn fwy, er enghraifft drwy ddefnyddio Facebook a Twitter.

39 Mae gan yr Awdurdod gyfres o bolisïau ar waith i'w helpu i gyflawni ei amcanion, gan gynnwys yr iaith Gymraeg, y Fforwm Cadernid Lleol, y cytundeb rhannu gwybodaeth, strategaeth y gweithlu, a'r strategaeth diogelwch cymunedol.

40 Daeth ein hadolygiad o drefniadau rheoli adeiladau yn 2009 i'r casgliad bod 'gan y Gwasanaeth trefniadau ar waith a ddylai gefnogi gwelliannau o ran effeithlonrwydd a darparu gwasanaethau i ddiwallu anghenion a bodloni disgwyliadau defnyddwyr yn yr unfed ganrif ar hugain'.

41 Amlygodd yr adroddiad ôl-groniad cynnal a chadw o £10 miliwn (ar gyfer ei 48 o safleoedd) sydd bellach ychydig dros £1.3 miliwn, drwy gyfuniad o waith cynnal a chadw wedi'i dargedu ac adolygiad trylwyr o'r ystâd.

42 Canfu ein hadolygiad o'r trefniadau rheoli fflyd yn 2008 sawl maes o arfer effeithiol. Mae'r Awdurdod yn defnyddio fframweithiau'r sector cyhoeddus i sicrhau caffael effeithiol ac rydym wedi dod i'r casgliad bod 'gan y gwasanaeth ddull o reoli fflyd sy'n gwneud defnydd da o adnoddau i gefnogi gwelliannau wrth ddarparu gwasanaethau'.

43 Mae archwiliadau blaenorol wedi cadarnhau bod gan yr Awdurdod drefniadau cynllunio ariannol cadarn ar waith. Cyflwynir cyllideb tair blynedd i'r Awdurdod ond nid oes bwriad i ddatblygu cynllun ariannol tymor canolig.

44 Yn ystod haf 2010 rydym yn bwriadu adolygu sut mae trefniadau rheoli adnoddau, ac yn arbennig cyllidebu a chynllunio ariannol, yn cefnogi gwelliant. Caiff ein casgliadau eu cynnwys yn yr Adroddiad Gwella Blynyddol yn ddiweddarach eleni.

**Mae'r Awdurdod wedi datblygu dull cryf a chynhwysol o reoli pobl**

45 Mae Strategaeth Datblygu'r Gweithlu ar waith ar gyfer (2008-2011) i gefnogi'r gwaith o gyflawni'r Cynllun Lleihau Risg, sy'n adlewyrchu Safonau Cenedlaethol ac yn cyfrannu at werthuso, monitro ac adolygu. Mae Strategaeth Adnoddau Dynol yn ategu'r strategaeth hon. Gyda'i gilydd mae'r strategaethau hyn yn cwmpasu materion gweithlu allweddol gan gynnwys arweinyddiaeth, cydraddoldebau a Chofnodion Datblygu Perfformiad, a'r nod yw sicrhau:

- gweithlu wedi'i hyfforddi'n well, sy'n fwy diogel a mwy hyblyg;
- cysylltiad cryfach rhwng y Cynllun Lleihau Risg a pholisïau ac arferion cyflogi; a
- diogelwch a sefydlogrwydd gwell o ran cyflogaeth, yn arbennig ymhlith carfan yn ôl galw y gweithlu.

46 Mae rhaglen o ymweld â gorsafoedd ar waith, ynghyd â chylchgrawn staff llawn gwybodaeth. Mae'r cysylltiadau TG â gorsafoedd wrthi'n cael eu gwella i wella mynediad at wybodaeth a chyfathrebu ar y fewnrwyd.

47 Nododd yr adolygiad asesu cymheiriaid ac adolygiad diweddar yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch anghysondebau wrth gwblhau a monitro cofnodion datblygu perfformiad fel problem bosibl. Bydd hygyrchedd cofnodion ar-lein yn gwella'r trefniadau hyn drwy fabwysiadu ffurf newydd, gliriach a symlach. Mae staff y Ganolfan Sgiliau, Dysgu a Datblygu yn cydlynu ac yn adolygu'r ffurflenni yn well, sydd wedi galluogi anghenion hyfforddiant a phroblemau adnoddau dynol eraill i gael eu diwallu a'u datrys yn well.

48 Gyda dwy ran o dair o'r gweithlu gweithredol yn cael eu cyflogi ar y System ar Ddyletswydd yn ôl Galw, mae recriwtio a chadw diffoddwyr tân yn ôl galw yn her. Mae'r Awdurdod yn parhau i adolygu risg ledled Gogledd Cymru. Nod yr adolygiad yw canfod a yw'r safonau trefniadau offer tân yn briodol o ran y risg yn y gymuned ac ystyried a yw'r adnoddau gorau yn y lleoedd gorau i ymateb i'r risgiau hynny.

49 Mae grŵp rheolwyr diogelwch cymunedol bellach wedi'i sefydlu yn y gwasanaeth, a gyfarfu am y tro cyntaf ym mis Ebrill 2010, i ddarparu gwybodaeth a dysgu ym mhob rhan o'r gwasanaeth.



## Nodwyd gwendidau ym maes rheoli perfformiad a chymerwyd camau i wella cadarnrwydd y systemau gwybodaeth reoli, ond mae angen datblygu prosesau busnes ymhellach

50 Mae Llythyrau Blynyddol cynharach wedi nodi'r angen i wella rheoli perfformiad ac mae'r Awdurdod wedi dechrau gwneud hyn. Er enghraifft, nodwyd rheoli perfformiad effeithiol o ran rheoli fflyd ac adeiladau yn ein hadolygiadau o'r meysydd hyn.

51 Caiff yr Awdurdod adroddiadau monitro perfformiad rheolaidd ac mae gan y Pwyllgor Archwilio newydd rôl allweddol wrth fonitro perfformiad. Mae'r Awdurdod yn ymchwilio i ffyrdd newydd o gyflwyno adroddiadau ar ei berfformiad, gyda phwyslais mwy eglur ar ddangos canlyniadau'r camau a gymerwyd. Mae'n gweithio gyda SunGard i weithredu system rheoli perfformiad Ffynnon, ond ar hyn o bryd mae'n parhau i ddefnyddio amrywiaeth o ffynonellau data i gyflwyno adroddiadau ar berfformiad gan nad oes ganddo system wybodaeth rheoli perfformiad unffurf.

52 Mae'r Awdurdod wedi cyflwyno Templed Cynllunio Mewnol Safonol (SIPT) newydd a fabwysiadwyd ym mhob rhan o'r gwasanaeth ac sy'n darparu dull cyson o gyflwyno adroddiadau ar berfformiad a chamau gweithredu ar lefel adrannol a Rheolaeth Sirol. Mae hyn yn cynnwys cyflwyno adroddiadau ar amseroedd, gofynion cyllidebol, cysylltiadau â chynlluniau ac amcanion gweithredol allweddol, terfynau amser gweithredu a swyddogion cyfrifol.

53 Mae angen i'r Awdurdod sicrhau bod prosesau busnes effeithiol ar waith ym mhob rhan o'r gwasanaeth ar adeg lle caiff cyllidebau eu lleihau yn y dyfodol. Mae angen gwella'r ffordd y mae cynigion allweddol yn y Cynllun Lleihau Risg yn cydblethu â phrosiectau annibynnol dros y flwyddyn nesaf.